TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# CBAC Ffiseg UG Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn rhoi cipolwg eang ond cysylltiol ar Ffiseg

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych yn gweithio'n galed ac yn gallu cymell eich hun

... Ydych yn anelu at ddatblygu'ch addysg yn y brifysgol

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn gwyddoniaeth

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r cwrs hwn wedi'i rannu i 5 uned. Bydd y 2 uned gyntaf yn cael eu hastudio ym mlwyddyn 1 ac yn arwain at gymhwyster UG.

Blwyddyn 1 - Lefel UG

Uned 1: Mudiant, egni a mater
Uned 2: Trydan a goleuni

Blwyddyn 2 - Lefel A

Uned 3: Osgiliadau a niwclei
Uned 4: Meysydd ac opsiynau
Uned 5: Arholiad ymarferol

Er y bydd nifer o'r pynciau ym mhob modiwl wedi'u cyflwyno ar lefel TGAU, cânt eu hadolygu'n drylwyr cyn cael eu hymestyn i safon Lefel A llawn. Mae'r fanyleb Ffiseg bellach yn cynnwys ffiseg gronynnau, laserau ac astroffiseg.

Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Ffiseg Lefel UG
Ffiseg Lefel U
Gweithgareddau sgiliau

Saesneg a Mathemateg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn cael mynediad ar y cwrs, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, Gradd B neu uwch mewn Mathemateg, Gradd B neu uwch mewn Ffiseg neu BB neu uwch mewn Gwyddoniaeth Ychwanegol

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Derbynnir Ffiseg Lefel A fel cymhwyster mynediad i ystod annisgwyl o eang o gyrsiau gradd prifysgol, o gyfrifeg i wyddor filfeddygol yn ogystal â'r cyrsiau amlycach sy'n seiliedig ar ffiseg, megis acwsteg, seryddiaeth, peirianneg (sifil, trydanol, electronig, mecanyddol, cynhyrchu etc.)

ac opteg lygadol.

Mae hefyd yn eich paratoi chi at gyflogaeth mewn ystod eang o feysydd.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen i chi wneud cyfraniadau ariannol at gost teithio ymweliadau addysgol.